Cylchlythyr Cyllid

Ionawr / Chwefror 2010

Y Newyddion Cyllid Diweddaraf



Cronfa'r Ardoll Agregau ar gyfer Cymru

Treth ar gloddio am agregau penodol i ddibenion masnachol yw'r Ardoll Agregau, ac mae'n cael ei thalu'n uniongyrchol i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Yn 2002 penderfynodd y Llywodraeth y gellid defnyddio rhywfaint o'r arian a gesglid drwy'r Ardoll Agregau i ariannu prosiectau sy'n lleihau effaith cynhyrchu agregau yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, neu'n lleihau'r angen i gloddio am agregau crai (chwarela). Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cael cyfran o'r arian hwn - £1.6 miliwn y flwyddyn ar hyn o bryd. Rheolir y Gronfa gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae rheolwyr y gronfa'n gwahodd ceisiadau ar hyn o bryd gan; gyrff gwirfoddol a chymunedol, awdurdodau lleol a sefydliadau ymchwil.

Er mwyn bod yn gymwys i gael arian mae'n bwysig bod y sefydliad sy'n gwneud cais yn gallu dangos cysylltiad pendant rhwng ei brosiect a chloddio am agregau. Mae'r meini prawf yn nodi bod yn rhaid i'r gwaith o gloddio am agregau fod yn cael effaith amlwg ar bobl leol a'u cymuned, ar yr amgylchedd neu ar yr economi, a rhaid i noddwyr y prosiect ddangos i ba raddau y bydd eu prosiect yn lleihau'r effeithiau hyn. Bydd angen llenwi ffurflen gais sydd ar gael gan: Uned Cronfa'r Ardoll Agregau ar gyfer Cymru, Y Gangen Polisi, Is-adran Gynllunio, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ. ebost: ALFW@wales.gsi.gov.uk 029 2082 3261 neu 029 2080 1492. Y dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau yw **9 Ebrill a 13 Awst 2010**.

WREN – y dyddiadau cau nesaf ar gyfer ceisiadau'n agosáu

Mae WREN, sy'n darparu cyllid i brosiectau cymunedol, treftadol ac amgylcheddol mewn ardaloedd sy'n agos at safleoedd tirlenwi drwy ddyfarnu grantiau i brosiectau amgylcheddol, treftadol a chymunedol, wedi cyhoeddi'r dyddiadau cyntaf ar gyfer ceisiadau yn 2010. Mae cyllid ar gael drwy dair rhaglen grantiau. Y rhaglen grantiau bach, sy'n darparu grantiau gwerth £2,000 - £15,000 ar gyfer prosiectau nad ydynt yn werth mwy na £50,000, Prif Gynllun Grantiau WREN, sy'n cynnig rhwng £15,001 a £50,000, a'r Gronfa Gweithredu Bioamrywiaeth, sy'n darparu rhwng £75,000 a £250,000 i gyflawni prosiectau gwella bioamrywiaeth dan Amcan DA. Mae'r sefydliadau sy'n gymwys i ymgeisio am grantiau'n cynnwys sefydliadau amgylcheddol, grwpiau gwirfoddol, elusennau, cymdeithasau dielw a grwpiau cymunedol. Y dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau yw **17 Mawrth 2010** ar gyfer y brif raglen grantiau a'r rhaglen grantiau bach a **29 Ionawr 2010** ar gyfer y Gronfa Gweithredu Bioamrywiaeth.

Cynllun Grant Cronfa Newid yn yr Hinsawdd – y dyddiad cau'n agosáu!

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu cynllun grant Cronfa Newid yn yr Hinsawdd ac mae'n gweithio gyda WCVA ac Amgylchedd Cymru er mwyn galluogi grwpiau i gael arian o'r gronfa. Mae gweinyddwyr y cynllun yn awyddus i ddenu sefydliadau'r trydydd sector, nad ydynt wedi bod yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd eto. Defnyddir y grantiau bach hyn (o £200 i uchafswm o £2,000) i helpu i hybu, addysgu a galluogi'r rhai hynny nad ydynt wedi bod yn ceisio mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd eto. Am fwy o wybodaeth, neu gyngor ynglŷn â sut i wneud cais, a chopïau o'r ffurflenni cais a'r pecyn gwybodaeth, cysylltwch â desg gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu

anfonwch e-bost i climatechangefund@environment-wales.org **Gellir cyflwyno cais unrhyw bryd ond y dyddiad cau yw 1 Mawrth 2010.**

Ffynonellau Ariannu Byw

Allwedd i'r Themâu:
Gall pob ffynhonnell ariannu fod yn berthnasol i un neu ragor o'r themâu isod – sy'n cael eu dangos wrth ochr pob cofnod.

CG –Cefn Gwlad	MA – Mynediad i'r Amgylchedd
CW – Cadwraeth	TW – Tirwedd
AA – Yr Amgylchedd Arfordirol	AE – Yr Amgylchedd Ehangach
DC – Datblygu Cynaliadwy	TDd – Treftadaeth Ddaearegol

Elusennau, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau

Arcadia CW DC
Cronfa dyfarnu grantiau a sefydlwyd yn 2001 yw Arcadia, neu Gronfa Elusennol Lisbet Rausing gynt. Gweinyddir y gronfa gan Charities Aid Foundation (CAF) a phrif genhadaeth Arcadia, o 2009 ymlaen, yw diogelu diwylliannau ac agweddau ar fyd natur sydd mewn perygl. Mae hyn yn cynnwys diogelu ieithoedd sydd bron â marw, archifau hanesyddol prin ac arteffactau sy'n ddigon da i fod mewn amgueddfa, ynghyd ag ecosystemau ac amgylcheddau sydd dan fygythiad o gael eu difa. Mae'r Bwrdd Cyfranwyr yn penderfynu pwy fydd yn cael grantiau ar sail ei ddiddordebau ysgolheigaidd ac ymarferol a thrwy gyngor gwybodus gan arbenigwyr. **Sylwer! Nid yw Bwrdd Arcadia yn ystyried ceisiadau na ofynnwyd amdanynt.** Am fwy o fanylion ewch i: http://digbig.com/5bamym

Arthur Rank Centre DC
Uned gydweithredol yw hon, ac mae'n cael ei chefnogi gan yr Eglwysi Cenedlaethol, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Lloegr a Sefydliad Rank er mwyn gwasanaethu'r gymuned wledig a'i heglwysi. Mae'r ganolfan wedi ymrwymo i gefnogi cymunedau gwledig, ac mae wedi sefydlu cynllun "Cyfrifiaduron i Bobl Cefn Gwlad" er mwyn darparu cyfrifiaduron am brisiau isel iawn ac annog pobl i gymryd y cam cyntaf. http://digbig.com/5bafeg

The Ashden Trust CG MA CW AE DC
Elusen dyfarnu grantiau sy'n canolbwyntio ar y newid yn yr hinsawdd, datblygu cynaliadwy a gwella ansawdd bywyd mewn cymunedau tlawd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dyfarnu grantiau bach (rhwng £1,000 ac £20,000 fel arfer) i sefydliadau sydd ag enw da am weithredu prosiectau arloesol ac effeithiol yn y categorïau isod: prosiectau amgylcheddol dramor; prosiectau amgylcheddol yn y Deyrnas Unedig; adfywio cynaliadwy; pobl sydd mewn perygl; celfyddydau cymunedol; buddsoddiad cymdeithasol. Am ragor o fanylion ewch i: http://digbig.com/4xnge

The Baring Foundation DC
Sefydlwyd y sefydliad yn 1969 er mwyn rhoi arian i elusennau a mudiadau gwirfoddol sydd â dibenion elusennol. Mewn 40 mlynedd mae wedi dyfarnu dros £98 miliwn o grantiau.

Roedd gan y sefydliad gyllideb o £1.5 miliwn ar gyfer grantiau yn 2009. Mae ganddo raglenni grant penodol sy'n ymwneud â'r celfyddydau, datblygu rhyngwladol a chryfhau'r sector gwirfoddol. Mae hefyd yn gweithio ar fentrau arbennig, gan gynnwys: cynnig gwell bargen i rieni sydd ag anawsterau dysgu, rhyngweithio rhwng diwylliannau, a **newid hinsawdd**. Os hoffech gael mwy o fanylion ewch i: http://digbig.com/5bamyt

Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog ■ CG ■ CW ■ AE
Cwmni elusennol a sefydlwyd er mwyn helpu pobl, cymunedau a mudiadau gwirfoddol i wneud gwaith cadarnhaol er mwyn gwarchod a gwella'r amgylchedd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog. Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth yn 2009 ag arian cychwynnol gan y Grid Cenedlaethol. Os hoffech gael mwy o fanylion am ei grantiau ewch i: http://digbig.com/5bacgk

The Bromley Trust ■ CW ■ DC
Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddiddordeb mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cefnogi elusennau yn y Deyrnas Unedig sy'n hybu cynaliadwyedd a helpu i ddatblygu gwybodaeth a defnydd cyfrifol o adnoddau'r byd a phrosiectau sy'n ymdrin â newid yn yr hinsawdd. Am fwy o fanylion ewch i: http://digbig.com/5bamyw

Cymdeithas Ecolegol Prydain ■ MA
Mae Cymdeithas Ecolegol Prydain yn cynnig ystod eang o grantiau i ariannu addysg ecolegol a phrosiectau ecolegol. Mae categorïau'r grantiau fel a ganlyn:

- Grantiau addysgol, Grantiau cyfarfodydd, Grantiau ymchwil, Grantiau polisi
- Grant Ennyn Diddordeb y Cyhoedd (newydd – Mae Cymdeithas Ecolegol Prydain yn annog ei haelodau ac eraill i ennyn diddordeb y cyhoedd mewn agweddau cyffrous a phwysig ar ecoleg. Bydd Grant Ennyn Diddordeb y Cyhoedd yn cynnig hyd at £2,000 i'w helpu i wneud hynny. (Gweler http://digbig.com/4ykrg)

Am fwy o wybodaeth, gan gynnwys sut i wneud cais, ewch i: http://digbig.com/4xngj

Calouste Gulbenkian Foundation ■ AE
Sefydliad elusennol, yn ymwneud â meysydd diwylliannol, addysgol, cymdeithasol a gwyddonol, a sefydlwyd ym Mhortiwgal yn 1956 yw hwn. Pwrpas cangen y Deyrnas Unedig yw helpu i gyfoethogi a chysylltu profiadau pobl yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon a sicrhau newid parhaol a buddiol yn eu bywydau. Mae gan y sefydliad ddiddordeb arbennig hefyd mewn cynorthwyo'r bobl sydd dan yr anfantais fwyaf. Yn 2009 cyflwynodd y sefydliad **Gronfa Arloesi** newydd i gefnogi syniadau gwirioneddol arloesol a phartneriaethau anarferol mewn meysydd diwylliannol, addysgol a chymdeithasol amrywiol. **Dyma'r unig ffrwd ariannu sydd ar agor ar gyfer ceisiadau yn awr.** Gall sefydliadau dielw ymgeisio am gyllid ymchwil a datblygu er mwyn edrych ar syniad newydd sy'n eu galluogi i weithio gyda sefydliadau eraill neu arbenigwyr y tu allan i'w maes arferol, neu sy'n eu galluogi i wneud ymchwil weithredol i feysydd na fyddai ganddynt amser nac arian i ymchwilio iddynt fel rheol. Am ragor o fanylion ewch i: http://digbig.com/5banap

Canoeing Foundation ■ AE
Mae'r sefydliad hwn yn ariannu prosiectau sy'n cefnogi neu'n hybu mentrau canŵio i bobl ifanc a/neu bobl anabl. Gwahoddir ceisiadau sy'n cefnogi grwpiau ac yn darparu cyfarpar y gellir eu defnyddio gan nifer o wahanol unigolion. Cynigir hyd at £1,000 o grant fel arfer. Y dyddiadau cau yw 30 Ebrill a 31 Hydref. http://digbig.com/5bahtd

Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo ■ DC ■ AE
"Un o brif gryfderau Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo yw hyblygrwydd ein rhaglenni ariannu. Maent yno i helpu pobl, nid i wneud iddynt neidio dros glwydi. Ar un pen i'r sbectrwm rydym yn rhoi grantiau o'n 'cist gymunedol' i sefydliadau bach i'w helpu i ddatblygu, ac ar y pen arall rydym yn rhoi grantiau mawr sy'n werth hyd at £300,000 i sefydliadau gwirfoddol, cymunedol a statudol mwy. Mae'n rhaglen grantiau'n ceisio helpu grwpiau sy'n ymateb i angen lleol". Mae'r gronfa'n agored i gymunedau glofaol. Gweler http://digbig.com/4wyhs am fwy o wybodaeth.

The Conservation Foundation ac O2 ■ AE
Mae grantiau sy'n werth hyd at £1,000 ar gael ar gyfer prosiectau cymunedol amgylcheddol, er enghraifft trawsnewid tir diffaith yn ardal bywyd gwyllt / plannu coed / creu llyn ar gyfer bywyd gwyllt / adfer llwybrau sydd wedi cael eu hesgeuluso ger afonydd a chamlesi. Mae unigolion / grwpiau cymunedol / clybiau lleol neu ysgolion yn gymwys i ymgeisio. Gwahoddir ymgeiswyr llwyddiannus hefyd i anfon lluniau cyn/wedyn ar gyfer gwobr 'da iawn'. Am ragor o fanylion ewch i: http://digbig.com/4xfrc

Cronfa Gymunedol 'The Co-operative Group' ■ AE
Cronfa sy'n darparu cyllid i brosiectau sy'n dangos budd i'w cymuned leol, sydd â phwrpas elusennol, ac sy'n gweithredu'n unol â gwerthoedd ac egwyddorion y grŵp. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sydd o fudd i'r gymuned ehangach, megis prosiectau amgylcheddol a phrosiectau diogelu safleoedd treftadaeth. Gall grwpiau ymgeisio am symiau sy'n amrywio o £100 i £5,000, a dyfernir £750 ar gyfartaledd. http://digbig.com/4xyqh

Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA) ■ CG ■ MA
Mae ymddiriedolaeth elusennol y CLA yn dyfarnu grantiau sy'n werth tua £2,500 i brosiectau sy'n ceisio hybu addysg am gefn gwlad, a gwella mynediad i gefn gwlad, i bobl anabl a phobl sydd dan anfantais.
http://digbig.com/4xngm Dolen gyswllt i astudiaethau achos grantiau: http://digbig.com/4xngn

Cronfa Gymunedol ac Amgylcheddol CWM - Cymru
Mae arian ar gael gan Gronfa Gymunedol ac Amgylcheddol CWM ar gyfer prosiectau cymunedol ac amgylcheddol yn Sir Gaerfyrddin. Mae tua £200,000 ar gael bob blwyddyn a bydd pob grant yn werth rhwng £5,000 a £50,000. Cynhelir 2 rownd ariannu bob blwyddyn a gwneir y penderfyniadau ym Mai a Thachwedd. Gwefan: http://digbig.com/5bacgj. Edrychwch yn yr adran 'grantiau'.

Dulverton Trust ■ CW ■ AE
Ymddiriedolaeth sy'n rhoi grantiau i elusennau. Mae ganddi nifer o flaenoriaethau ariannu, gan gynnwys *Cadwraeth*, sy'n ymdrin â materion cadwraeth cyffredinol yn y Deyrnas Unedig gan roi pwyslais ar warchod cynefinoedd bywyd gwyllt. Yn anaml yr ystyrir ceisiadau sy'n ymwneud â rhywogaethau unigol. Grantiau bach (hyd at £3,500 i elusennau sydd â'u hincwm yn llai na £400k) a mawr (i elusennau sydd â thros £400k o incwm). Mwy o wybodaeth yn http://digbig.com/4xnja

Cronfa Ynni Cynaliadwy E.ON ■ AE
Yn ogystal â'r wybodaeth a'r cyngor sydd ar y wefan hon, mae'r Gronfa Ynni Cynaliadwy'n cynnig grantiau sy'n werth hyd at £20,000 i grwpiau cymunedol a mudiadau dielw sy'n awyddus i weithredu prosiectau ynni cynaliadwy yn eu hadeiladau – yn amrywio o brosiectau effeithlonrwydd ynni i brosiectau microgynhyrchu. Rhaid i'ch sefydliad fod o fudd i grwpiau cymunedol penodol, sef: pobl ifanc, yr henoed a phobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd. Mae grwpiau cymunedol lleol a mudiadau dielw sydd wedi'u lleoli yng Nghymru,

Lloegr a'r Alban yn gymwys. Ystyrir ceisiadau ar y cyd (e.e. gydag awdurdodau lleol), ond rhaid i'r cais gael ei arwain gan y sefydliad cymunedol. Dim ond ar gyfer cyfleusterau amhreswyl y gellir ymgeisio am arian. Er mwyn gwneud cais am arian llwythwch y ffurflen gais a'r Canllawiau i lawr o'r wefan: http://digbig.com/5bahsx

The Ernest Cook Trust ■ CG
Yn ogystal â chynnig rhaglen eang o weithgareddau dysgu sy'n ymwneud â'r tir i blant a phobl ifanc, mae'r ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau i elusennau cofrestredig, ysgolion a sefydliadau dielw sy'n dymuno annog diddordeb pobl ifanc yng nghefn gwlad a'r amgylchedd neu yn y celfyddydau (yn yr ystyr ehangaf) neu sy'n ceisio gwella llythrennedd a rhifedd. Gan fod yr ymddiriedolaeth yn ymwneud â'r tir, mae gwaith sy'n annog neu'n sicrhau parhad sgiliau a chrefftau gwledig o ddiddordeb arbennig i'r Ymddiriedolwyr. Disgwylir i bob cais fod yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu â chymwysterau cydnabyddedig. Yn 2008/09, rhoddodd yr ymddiriedolwyr £1.7m i gefnogi dros 450 o brosiectau addysgol. Gweithredir rhaglen grantiau mawr ar gyfer dyfarniadau sydd dros £4,000 a rhaglen grantiau bach ar gyfer dyfarniadau sydd dan £4,000 drwy gydol y flwyddyn. Mae rhagor o fanylion am y rhaglenni grant a rhestr o'r rhai sydd wedi cael grant yn ddiweddar i'w gweld ar y wefan: http://digbig.com/5banas

Sefydliad Esmée Fairbairn ■ CW ■ AE
Prif Grantiau Mae'r brif raglen grantiau, ymhlith pethau eraill, yn ceisio ariannu prosiectau sy'n canolbwyntio'n benodol ar yr amgylchedd naturiol. Am ragor o fanylion, ewch i: http://digbig.com/4xngg (Nid oedd y wefan yn ymateb pan geisiwyd gwirio'r wybodaeth – 24/08)
Grantiau Penodol Mae'r rhaglen ariannu *Grantiau Penodol* yn ceisio ariannu meysydd gwaith penodol. Bydd y 'meysydd penodol' hyn yn newid bob hyn a hyn, ond gwahoddir ceisiadau ar hyn o bryd ar gyfer y meysydd a ganlyn: bioamrywiaeth; casgliadau amgueddfeydd a threftadaeth; dulliau newydd o ddysgu; bwyd a chyllid. Am ragor o fanylion, ewch i: http://digbig.com/4xngh

The February Foundation ■ AE
…yn cynnig grantiau i elusennau ar gyfer gweithgareddau mewn pum maes: [1] addysg uwch, [2] addysg uwchradd, [3] elusennau cymunedol, [4] elusennau cenedlaethol, [5] achosion elusennol. Ariennir nifer o feysydd, gan gynnwys "elusennau sy'n diogelu'r amgylchedd". I weld gwefan syml iawn, ewch i http://digbig.com/4ydqa



The G D Charitable Trust ■ AE
Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi blaenoriaeth i ddyfarnu grantiau mewn nifer o feysydd elusennol, gan gynnwys gwarchod yr amgylchedd. Nid yw'n gronfa fawr ac mae'r grantiau a ddyfarnwyd yn y gorffennol wedi amrywio'n fawr o ran maint. Mae'n well gan yr Ymddiriedolaeth gefnogi elusennau sydd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau, ond mae'n fodlon ystyried sefydliadau eraill ar yr amod bod pwrpas y grant yn cael ei ystyried yn elusennol. Nid oes gwefan. Manylion pellach ar gael gan G D Charitable Trust, 50 Broadway, Westminster, Llundain SW1H 0BL. Ffôn 020 7227 7000.

The Garfield Weston Foundation ■ AE
Elusen sy'n dyfarnu grantiau cyffredinol i Elusennau Cofrestredig yn y Deyrnas Unedig (gyda rhai eithriadau). Mae'r rowndiau ariannu diweddar wedi helpu prosiectau yn y categorïau isod: y Celfyddydau, y Gymuned, Addysg, Lles, Materion Meddygol, Materion Cymdeithasol, Crefydd, Ieuenctid a'r **Amgylchedd**. Mae'r grantiau a ddyfarnwyd yn ddiweddar wedi bod yn rhai sylweddol, felly ewch i http://digbig.com/4wyhw i weld a yw'ch prosiect chi'n bodloni'r meini prawf.

The John Ellerman Foundation ■ CW ■ DC ■ AE
Mae'r Sefydliad yn dyfarnu grantiau mewn pum categori, ac maent yn werth tua £5 miliwn y flwyddyn. Dyfernir y grantiau i tua 180 o wahanol elusennau ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn y Deyrnas Unedig. Y categorïau yw: Iechyd ac Anabledd, Lles Cymdeithasol, Y Celfyddydau, **Cadwraeth**, Materion Tramor. Ar hyn o bryd mae'r cyllid wedi'i anelu at elusennau o'r Deyrnas Unedig, sy'n gweithio ledled y Deyrnas Unedig mewn o leiaf un o'r meysydd isod: Diogelu anifeiliaid, planhigion a chynefinoedd sydd dan fygythiad, hybu gwell dealltwriaeth o broblemau amgylcheddol ac atebion iddynt. Mae'r problemau hyn yn cynnwys newid hinsawdd a bioamrywiaeth, datblygu ac ehangu cyfleusterau / safleoedd cadwraeth, hybu ffyrdd cynaliadwy o fyw, gan gynnwys technolegau ynni adnewyddadwy. Am fwy o fanylion ewch i: http://digbig.com/5banat

The Idlewild Trust ■ CW
Ymddiriedolaeth dyfarnu grantiau sy'n cefnogi elusennau cofrestredig (nid unigolion) sy'n ymwneud ag annog rhagoriaeth mewn celfyddydau perfformio a chelfyddyd gain a chadw/gwarchod adeiladau ac eitemau o ddiddordeb hanesyddol neu o bwysigrwydd cenedlaethol er budd y cyhoedd. Cynigir cefnogaeth yn achlysurol er mwyn **diogelu'r amgylchedd naturiol**. Mae'r grantiau'n amrywio o £1,000 i £2,000 http://digbig.com/4ydmd

The Jephcott Charitable Trust ■ CG ■ CW ■ TW ■ AE ■ DC
Un o flaenoriaethau'r ymddiriedolaeth wrth ddarparu cyllid yw'r 'amgylchedd naturiol'. Mae'n rhoi blaenoriaeth i daliadau untro i brosiectau sy'n cael anhawster i ddechrau neu i gael arian o rywle arall. Mae'r grantiau fel arfer yn werth rhwng £2,000 a £10,000. Am ragor o fanylion ewch i http://digbig.com/4xngf
Ceir gwybodaeth am brosiectau a ariannwyd yn y gorffennol yn http://digbig.com/4wtar

The Naturesave Trust ■ AE
Ymddiriedolaeth sy'n cynnig cymorth ariannol i'r prosiectau hynny sy'n mynd i'r afael â gwraidd problem benodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd a/neu gadwraeth a'r rhai hynny sy'n annog mwy o ymwybyddiaeth fasnachol o ddatblygu cynaliadwy. Nid oes dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, ac ymdrinnir â hwy ar sail rhaglen 'dreigl'. Mae'r grantiau sydd ar gael i brosiectau'n amrywio o £100 i £10,000, a thua £2,000 yw'r swm cyfartalog. http://digbig.com/4ypyc

Lloyds TSB Foundations ■ AE
Mae'r sefydliad wedi'i rannu'n bedair cangen ar gyfer Cymru a Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon ac Ynysoedd y Sianel. Er mwyn ymgeisio am grant, dylai elusennau edrych ar wefan y rhanbarth lle maent wedi cael eu cofrestru. Ceir manylion ar y wefan hefyd am yr elusennau a'r prosiectau sydd wedi cael cefnogaeth yn y gorffennol. http://digbig.com/5bafef

The Manuka Club ■ AE
Sefydlwyd y Clwb ym Mai 2003 gan Benjamin Goldsmith, ac mae'n gweithredu fel rhwydwaith cyfrannu ar gyfer unigolion sy'n awyddus i wrthwynebu colledion na ellir eu dadwneud wrth i gefn gwlad Prydain gael ei ddatblygu'n ddiangen. Mae'r Clwb yn canolbwyntio ar dri maes gweithgaredd. *Rhaglen Grantiau Bach* sy'n dosbarthu arian i grwpiau sy'n ymwneud ag ymgyrchoedd lleol effeithiol; *Rhaglen Hyfforddi* sy'n rhoi sgiliau allweddol yn ymwneud â'r cyfryngau, strategaethau ymgyrchu a threfnu i unigolion a grwpiau; a *Rhaglen Grantiau Strategol* sy'n cefnogi prosiectau a rhwydweithiau y teimlir eu bod o fudd er mwyn cryfhau gweithgareddau ar lawr gwlad yn gyffredinol. Am ragor o fanylion ewch i: http://digbig.com/5banaw

Y Gronfa Cymunedau Morol (Marine Communities Fund) ■ AA
Sefydlwyd cronfa Ystâd y Goron i gynnig cymorth i fentrau a rhaglenni sy'n helpu i ddatblygu'r arferion gorau, ac sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith da o reoli a gwarchod yr ystâd forol. Gall prosiectau fod yn ymarferol (creu cynefin, codi sbwriel), yn hysbysol (paneli, arweinlyfrau), neu'n addysgol (yn gysylltiedig â rheoli eiddo Ystâd y Goron). Rhaid i brosiectau grwpiau cymunedol fod â chysylltiad clir â thir Ystâd y Goron. Hyd at 100% o gostau'r prosiect. http://digbig.com/4xwty

Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm ■ CW ■ TW ■ AE
Mae'r Ymddiriedolaeth yn annog ceisiadau sy'n ymwneud ag ailgylchu, datblygu mannau gwyrdd, datblygu a hyrwyddo arferion gwyrdd a hyrwyddo cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus. Rhoddir blaenoriaeth wrth ddyrannu grantiau i brosiectau sy'n gwella ansawdd amgylchedd Cymru, yn diogelu ac yn creu ardaloedd gwledig bywiog, ac yn datblygu ac yn hyrwyddo dulliau cynaliadwy o gynllunio defnydd tir. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn dyrannu grantiau ar sail maint yr ardal ddaearyddol y mae sefydliad yn gyfrifol amdani: Lleol = £2,000; Rhanbarthol = £10,000; Cenedlaethol = £20,000. Dyddiad cau nesaf - "Gwanwyn 2009". http://digbig.com/4xjpm

Moto in the Community Trust ■ AE
Ymddiriedolaeth sy'n ariannu'r *Cynllun Grantiau Cymunedol,* ac yn darparu arian i "grwpiau cymunedol amgylcheddol sy'n ymgymryd â rôl weithredol yn eu hamgylchedd. Bydd yr ymddiriedolaeth yn chwilio am brosiectau cadwraeth ymarferol megis glanhau llynnoedd, glannau afonydd ac ardaloedd llawn tyfiant, tacluso llwybrau, creu meysydd chwarae a gerddi cymunedol y gall staff Moto ymwneud â hwy." Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu grwpiau o fewn 25 milltir o gyffyrdd 47 (Abertawe) a 33 (Caerdydd) yr M4. Mae'r grantiau a ddyfarnwyd yn y gorffennol wedi amrywio o £150 i £1,000 – gweler http://digbig.com/4xrrt

The Oakdale Trust ■ AE
Ymddiriedolaeth sy'n rhoi blaenoriaeth wrth ddyrannu cyllid i elusennau Cymreig sy'n ymwneud â phrosiectau cymdeithasol, meddygol a **chadwraethol**. Nid oes gwefan, felly ffoniwch 01832 226386 neu anfonwch ebost i oakdale@tanh.demon.co.uk

The Paul Hamlyn Foundation ■ AE
Mae'r sefydliad hwn yn un o'r sefydliadau dyfarnu grantiau annibynnol mwyaf yn y Deyrnas Unedig. Nid yw ariannu prosiectau sy'n ymwneud â chefn gwlad neu'r amgylchedd ymhlith ei flaenoriaethau craidd, ond gall dderbyn ceisiadau sy'n gallu dangos effaith ehangach prosiectau sydd â'u hamcanion yn gysylltiedig â'i ddiddordeb yn y canlynol: Y Celfyddydau, Addysg a Dysgu a themâu Cyfiawnder Cymdeithasol. Gweler http://digbig.com/5baydf am fwy o wybodaeth.

The Plunkett Foundation – Rhaglen Craidd Pentref ■ AE
Mae'r sefydliad hwn, mewn partneriaeth â Sefydliad Esmée Fairbairn a chwmni Co-operative and Community Finance yn rheoli Rhaglen Craidd Pentref. Mae pecynnau ariannol ar gael drwy'r rhaglen hon ar gyfer dechrau busnes, a gall hyn olygu hyd at £40,000 y siop. Ategir y pecynnau gan gyfraniadau gan y gymuned a cheir cyngor gan Sefydliad Plunkett. Darperir elfen fenthyciad y pecyn gan gwmni Co-operative and Community Finance, y cwmni benthyciadau cymdeithasol hynaf yn y Deyrnas Unedig. Gweler http://digbig.com/5bahst am fwy o wybodaeth.

Polden Puckham Charitable Foundation ■ DC ■ AE
Mae'r sefydliad yn ariannu grwpiau yn y Deyrnas Unedig sy'n ceisio dylanwadu ar bolisïau, agweddau a gwerthoedd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol, gan gynnwys mentrau cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig sy'n hybu *byw'n gynaliadwy*. Gallai'r rhain fod yn grwpiau materion unigol sy'n ceisio sicrhau newid penodol, neu'n sefydliadau sydd â chylch gwaith ehangach. Mae'r sefydliad yn rhoi ystyriaeth arbennig i sefydliadau pencadlys arloesol bychain. Mae'r grantiau fel arfer yn werth rhwng £5,000 a £15,000 y flwyddyn. Maent am gyfnod o hyd at dair blynedd, ac maent yn cefnogi sefydliadau y byddai hyn yn cyfateb i rhwng 5% a 50% o'u hincwm blynyddol. Am ragor o fanylion ewch i: http://digbig.com/5banax

The Santander Foundation ■ AE
Mae'r sefydliad hwn - yr hen Abbey Charitable Trust – wedi ymrwymo i gefnogi cymunedau lleol a phobl sydd dan anfantais, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle mae gan Santander bresenoldeb sylweddol. Mae ei brif flaenoriaethau'n cynnwys 'Addysg a Hyfforddiant'. Bydd angen i ymgeiswyr ddangos sut y byddai'r hyfforddiant hwn o fudd uniongyrchol i bobl sydd dan anfantais a sut y bydd yn gwneud cyfraniad parhaol i'r gymuned leol. Ariennir eitemau diriaethol fel cyfarpar, llyfrau gwaith, deunyddiau hyfforddi ac eitemau eraill y gellir eu prynu unwaith a'u hailddefnyddio am flynyddoedd lawer. £500 i £4,000. Gweler http://digbig.com/4xnca am fwy o fanylion.

Tesco Charity Trust – Gwobrau Cymunedol ■ AE
Mae Cynllun Gwobrau Cymunedol Ymddiriedolaeth Elusen Tesco'n darparu cyfraniadau untro sy'n werth rhwng £500 a £4,000 i brosiectau lleol sy'n cefnogi plant a'u haddysg a'u lles, yr henoed a phlant ac oedolion sydd ag anabledd. Mae'r prosiectau a gefnogwyd yn y gorffennol yn cynnwys y canlynol; cyfarpar cae chwarae mewn ysgolion a chymunedau lleol, prosiectau gardd synhwyraidd a dosbarthiadau awyr agored. Ceir pedair rownd ariannu bob blwyddyn, a dylid gwneud ceisiadau drwy'r ffurflen gais ar-lein. Ceir canllawiau ar-lein yn: http://digbig.com/5bardt. Neu os hoffech gael mwy o fanylion ewch i: http://digbig.com/5bards

Trusthouse Charitable Trust ■ DC ■ AE
Mae'r Ymddiriedolaeth wedi newid ei blaenoriaethau er mwyn cefnogi prosiectau sy'n rhoi sylw i Faterion Gwledig. Yn y cyd-destun hwn, mae 'gwledig' yn golygu dinasoedd, trefi neu bentrefi sydd â 10,000 neu lai o drigolion. Bydd yn parhau i ystyried ceisiadau sy'n ymwneud ag ardaloedd lle ceir amddifadedd trefol eithafol. Bydd yn ystyried ceisiadau dan benawdau Cymorth Cymunedol, y Celfyddydau ac Addysg, Anabledd a Gofal Iechyd. Grantiau bach: hyd at £10,000 (cyfalaf a refeniw), £10,000 i £30,000 (cyfalaf yn unig). Gweler http://digbig.com/4xddy am fwy o wybodaeth.



Volvo Adventure ■ DC ■ AE
Rhaglen addysgol mewn partneriaeth â Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig yw hon ac mae'n gwobrwyo gweithgareddau amgylcheddol a phobl ifanc a fydd yn gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Cynhelir dwy gystadleuaeth ar gyfer pobl ifanc 10-12 oed a 13-16 oed (ar 1 Gorffennaf 2009) sy'n gweithio mewn grwpiau bach ar brosiectau amgylcheddol. Dewisir y prosiectau gorau ar gyfer trip di-dâl i Göteborg, Sweden lle gallant ennill gwobrau ariannol i gefnogi eu prosiectau. Ewch i http://digbig.com/5bayde

The Wakeham Trust ■ CG ■ MA ■ CW ■ TW ■ AA ■ AE ■ DC ■ TDd
Ymddiriedolaeth sy'n darparu grantiau sy'n werth hyd at £750 i brosiectau cymunedol. Nid yw'n ffafrio unrhyw weithgaredd penodol, (ceir astudiaethau achos yn

http://digbig.com/4wtjx) ond mae'n well ganddi ariannu prosiectau bach nad ydynt yn gallu cael arian o gronfeydd eraill. Rhaid i'r ymgeiswyr fod yn elusennau cofrestredig, neu'n gweithio gydag elusen sy'n gallu derbyn arian ar ran yr ymgeisydd. Ceir rhagor o fanylion yn: http://digbig.com/4xngc

Waterloo Foundation ■ TW ■ AE
Sefydliad annibynnol, sy'n rhoi grantiau i grwpiau lleol sy'n fach o ran eu maint ac yn fanwl o ran eu ffocws. Eu "prif ysgogydd yw cefnogi'r gymuned lle'r ydym yn gweithio ac yn byw", a hynny oddi mewn i themâu amgylcheddol, (yn enwedig o gofio'r ffordd hegar yr ymelwir ar dirwedd Cymru), lliniaru effeithiau tlodi a datblygu plant. http://digbig.com/5bafdf

The Will Charitable Trust ■ CG ■ MA ■ CW ■ TW ■ AA
Sefydlwyd yr ymddiriedolaeth drwy haelioni preifat yn 1990 fel elusen sy'n dyfarnu grantiau i elusennau eraill mewn meysydd gweithgaredd penodol sydd wedi'u diffinio yn eu polisi grantiau. Un maes o'r fath yw 'Gofalu am gefn gwlad, gan gynnwys ei blanhigion a'i anifeiliaid'. Cefnogir oddeutu 8 elusen y flwyddyn ac mae'r grantiau'n amrywio o tua £5,000 i £20,000. Yr elusennau sy'n bodoli i ddibenion cadwraeth yn bennaf yw'r rhai mwyaf tebygol o fod yn llwyddiannus. Am fwy o fanylion ewch i: http://digbig.com/5baref

Coed Cadw ■ CG ■ MA ■ CW ■ TW ■ AE
Cynigir grantiau sy'n werth hyd at £100 i grwpiau cymunedol sy'n cynnal digwyddiadau plannu coed yn y gaeaf. Rhaid i grwpiau gofrestru gyda'r ymddiriedolaeth er mwyn bod yn gymwys. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth a chofrestru, ewch i: http://digbig.com/4xngd**.** Cynigir grantiau hefyd i goetiroedd cymunedol – gweler http://digbig.com/4yxst am fwy o fanylion.

The Woodward Trust ■ AE
Mae'r Ymddiriedolaeth hon yn ffafrio mentrau bychain lleol. Darperir cyllid yn bennaf ar gyfer prosiectau sy'n cael eu gweithredu unwaith yn unig, ond mae'r Ymddiriedolwyr yn barod i ystyried cyllid ar gyfer costau craidd. Nid yw'r blaenoriaethau ariannu'n gysylltiedig â'r amgylchedd, ond "gall yr Ymddiriedolwyr hefyd ystyried … prosiectau amgylcheddol, yn enwedig rhai sydd ag elfen addysgol gref, ar yr amod eu bod yn brosiectau annibynnol, a'u bod yn gwneud mwy na dim ond dilyn tueddiadau'r cyfnod." £100 i £10,000 http://digbig.com/4yshj

Cyllid Trydydd Sector y Llywodraeth a Chyllid Ewropeaidd

Cronfa Gynaliadwyedd yr Ardoll Agregau ar gyfer Cymru
■ CG ■ CW ■ TW ■ AE ■ DC ■ TDd
Nod y Gronfa hon yw rhoi sylw i'r costau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chloddio am agregau. Defnyddir y gronfa yng Nghymru i roi sylw i'r materion canlynol: hen ganiatadau mwynau sy'n dal i fodoli; hybu'r defnydd o ddeunyddiau eraill yn lle agregau; lleihau effaith cloddio am agregau; manteision amgylcheddol a mwynderol i gymunedau y mae cloddio am agregau'n effeithio arnynt; gwarchod safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a phrosiectau addysgol. Am fwy o fanylion ewch i: http://digbig.com/4wtax

Cadw: Grant Mentrau Dinesig ■ AE
Mae gwerth hyd at £2,000 o Arian Cyfatebol ar gael i sefydliadau gwirfoddol er mwyn hybu a gwella dealltwriaeth o'r dreftadaeth adeiledig leol. http://digbig.com/4xnhe

Cadw: Grant Adfywio Gwledig ■ AE
Gall Cadw gynnig grant tuag at atgyweirio adeilad yng nghefn gwlad er mwyn ei wneud yn addas at ddefnydd blaenorol neu ei addasu ar gyfer defnydd newydd. Rhaid i'r adeilad fod yn: rhestredig; 'mewn perygl'; yng nghefn gwlad neu mewn pentref â 500 neu lai o drigolion. Mae'r grant ar gael i ymddiriedolaethau, elusennau, cyrff cyhoeddus, unigolion neu fusnesau. Mae'r cynllun hwn ar gyfer adeiladau o unrhyw fath, gan gynnwys rhai amaethyddol, diwydiannol, crefyddol, domestig a masnachol. http://digbig.com/4xnbm

Cadw: Grantiau cynnal a chadw mannau addoli ■ AE
Mae'r cynllun grantiau hwn yn cynnig cymorth i gynnal a chadw addoldai rhestredig yng Nghymru. Mae hyd at £500 ar gael i bob adeilad ar gyfer mân waith atgyweirio sydd ei angen er mwyn cadw addoldai mewn cyflwr da. Gall y gwaith hwn gynnwys glanhau gwteri a pheipiau landeri neu ddiogelu llechi sydd wedi llithro. Derbynnir ceisiadau hyd at 31 Awst 2009, neu pan nad oes arian ar ôl yn y gyllideb. Mae'r gyllideb ar gyfer 2009-10 yn £100,000. http://digbig.com/5bafee

Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol 2007-2011 ■ AE
Cynllun grant cyfalaf sy'n cael ei weithredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw hwn. Mae'n agored i sefydliadau cymunedol a gwirfoddol. Bwriadwyd y rhaglen fel cronfa y gall sefydliadau ei defnyddio er mwyn llenwi bylchau ariannol sy'n dal i fodoli ar ôl archwilio pob ffynhonnell arall. Gall y Rhaglen helpu i ddarparu cyfleusterau a chyfarpar a helpu i gyflawni gweithgareddau sy'n hybu'r gwaith o adfywio cymunedau drwy fynd i'r afael â'r problemau …**a gweithredu er mwyn gwella'r amgylchedd adeiledig neu naturiol ar gyfer pobl leol …** Mae tipyn o gystadleuaeth am yr arian.
Y dyddiad cau nesaf yw: 9 Ebrill a 15 Hydref 2010. http://digbig.com/4ypyd

Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf ■ AE
Nod y Gronfa hon yw cefnogi unrhyw fath o weithgaredd sy'n cynnwys pobl leol, drwy sefydliadau cymunedol bychain, ac sydd o fudd i'w cymunedau. Croesewir ceisiadau gan brosiectau cymunedol amrywiol, gan gynnwys prosiectau cerddoriaeth a'r celfyddydau. Rhaid i'r gweithgareddau ddarparu rhyw gymaint o fudd economaidd, **amgylcheddol**, cymdeithasol neu ddiwylliannol i bobl sy'n byw mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf. Mae dros 180 o ardaloedd ledled Cymru sy'n gymwys i gael cefnogaeth gan y Gronfa. Rhestrir yr ardaloedd hyn yn y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Gallwch gael rhestr o'r ardaloedd cymwys drwy gysylltu â Llinell Gymorth Cymunedau yn Gyntaf - Ffôn: 0800 587 8898 Ebost: help@wcva.org.uk. Nid oes isafswm, ond ni chaniateir ichi ymgeisio am fwy na £5,000. Derbynnir ceisiadau drwy gydol y flwyddyn a phrosesir hwy ar sail y cyntaf i'r felin. Felly, gan fod swm penodol o arian yn cael ei ddyrannu i bob ardal Cymunedau yn Gyntaf, gorau po gyntaf y cyflwynwch eich cais rhag cael eich siomi gan fod yr uchafswm y gellir ei ddyrannu i'r ward wedi'i gyrraedd. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener, 29 Ionawr 2010. http://digbig.com/4yshp

Amgylchedd Cymru ■ AE
Nod Amgylchedd Cymru, sy'n cael ei weinyddu gan WCVA, yw cefnogi gwaith gwirfoddol, sy'n diogelu ac yn gwella'r amgylchedd, ac yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Mae pum cynllun grant ar gael:
Grantiau cyn prosiect – Ar gyfer cymorth arbenigol, megis astudiaethau ymarferoldeb, cynlluniau busnes a gwerthusiadau cymunedol (£500 i £4,000).
Grantiau cychwyn – Ar gael ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â sefydlu grwpiau gwirfoddol neu gymunedol newydd a datblygu prosiect yn barod i'w gofrestru (£1,000).
Grantiau Prosiectau – Ar gyfer ariannu deunyddiau prosiect, offer a chyfarpar (£10,000).
Grantiau Rheoli – Ar gyfer swyddi newydd sy'n gysylltiedig â phrosiectau (£1,000 i £11,000).

Grantiau Hyfforddi – Ar gael i gynorthwyo staff prosiectau neu wirfoddolwyr gyda chostau hyfforddi (gan gynnwys costau teithio i gyrsiau) (£400). http://digbig.com/4xnhd

Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (ESF) ■ AE
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu'r Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir er mwyn darparu arian cyfatebol canolog i raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2007-2013.
Bydd y Gronfa'n darparu arian cyfalaf a refeniw ac mae ar gael i sefydliadau o bob sector er mwyn cefnogi gweithgareddau cymwys dan raglenni 2007-2013. Ystyrir ceisiadau am arian o'r Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir a'r Cronfeydd Strwythurol cysylltiedig yr un pryd.
Sylwer: Dewis olaf yw'r Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir. O ganlyniad, bydd angen i ymgeiswyr ddangos bod pob ymdrech bosib wedi'i gwneud i sicrhau arian cyfatebol o ffynonellau eraill cyn gwneud cais i'r Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir. Ceir manylion llawn yn http://digbig.com/4xjgx a map meddwl yn http://gka.org.uk/esf (Ffynhonnell: fit4funding)

Menter Addysg y Coed
Nod Menter Addysg y Coed yw cynyddu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad pobl ifanc yn fwyaf arbennig o botensial amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd coed, coetiroedd a choedwigoedd ac o'r cysylltiad rhwng coed a chynnyrch pren bob dydd. Mae'r gwaith yn cael ei wneud drwy grwpiau lleol, a elwir yn 'grwpiau clwstwr'. Mae'r Fenter yn annog ac yn cefnogi ffurfio grwpiau clwstwr gwirfoddol lleol a rhanbarthol. Yn anffurfiol, mae grwpiau clwstwr y Fenter yn dod ag unigolion a sefydliadau sy'n awyddus i addysgu eraill am goed a phren, a'r rhai hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â pherchnogaeth a rheolaeth coetir a diwydiannau coed cysylltiedig at ei gilydd. Gall unrhyw un sy'n awyddus i gyflawni nodau ac amcanion y Fenter ymwneud â'i gwaith. Mae Cronfa Bartneriaeth y Fenter yn bodoli'n benodol er mwyn cefnogi gwaith y clystyrau. Cronfa her yw hi, sy'n golygu bod ymgeiswyr yn cystadlu am swm penodol o arian ym mhob blwyddyn ariannol. Mae arian cyfatebol yn hanfodol a bydd clystyrau sy'n ceisio cael cefnogaeth gan y sector preifat yn cael eu ffafrio. Yr uchafswm y gellir ymgeisio amdano mewn un cais yw £5,000 a'r isafswm yw £201. Ceir tair rownd gyllido bob blwyddyn a'r dyddiadau cau yw 1 Chwefror, 1 Mehefin ac 1 Hydref. http://digbig.com/5bafej

Cyngor Gwynedd ■ CG ■ CW ■ TW ■ AE ■ DC
Grantiau Cynaliadwyedd Gwynedd: Mae hyd at £5,000 o arian refeniw neu gyfalaf ar gael gan Gyngor Gwynedd i brosiectau sy'n hybu datblygu cynaliadwy yng nghymunedau Gwynedd. Rhaid i ymgeiswyr fod wedi'u lleoli yng Ngwynedd neu fod yn gweithio yng Ngwynedd. Am fwy o fanylion gweler: http://digbig.com/4xnhf http://digbig.com/4xnhg

Cadwch Gymru'n Daclus – Cynllun Cymunedau Glanach a Gwyrddach
Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn ceisio gwneud Cymru'n lle *'Glân, Diogel a Thaclus'* i bawb. Mae'n gweithio mewn partneriaeth agos ag awdurdodau lleol, ysgolion a grwpiau cymunedol er mwyn annog y cyhoedd i gyfrannu a chymryd rhan. Mae'n rhedeg nifer o wahanol raglenni ar hyn o bryd, ac mae rhai ohonynt yn cynnwys cynlluniau grantiau bach. Er enghraifft, gallai prosiectau cymunedol yn ardal Blaenau'r Cymoedd (Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen), fod yn gymwys ar gyfer grantiau sy'n werth hyd at £1,000 i helpu i wella eu hardal. Am fwy o fanylion ewch i: http://digbig.com/5barej

Cronfa Cymunedau Tirlenwi (yr hen Gredydau Treth Tirlenwi) ■ AE – Mae'r Gronfa fel rheol yn helpu prosiectau sy'n agos at safleoedd tirlenwi. Mae gweithredwyr safleoedd tirlenwi'n talu treth i ddefnyddio'r safleoedd. Dosberthir rhan o'r dreth yn dilyn hynny i fuddiolwyr, fel y rhai a nodir isod, sydd wedyn yn dosbarthu'r arian i ymgeiswyr.

Biffawards – rhwng £250 a £50,000 i brosiectau o fewn 10 neu 25 milltir o safle Biffa – er mwyn gweld pa mor bell ydych chi o safle ewch i: http://digbig.com/4wtkg
Dolen gyswllt i brif safle Biffawards: http://digbig.com/4xngq
Cynllun Blaenllaw Biffawards - yn ariannu prosiectau sydd â rhywbeth unigryw a chyffrous nad yw gan unrhyw brosiect arall yn y rhanbarth neu'r wlad. Mae grantiau sy'n werth **£150,000 - £500,000** ar gael. http://digbig.com/4ykmg

Cemex – rhwng £1,000 a £15,000 i safleoedd sydd o fewn tair milltir o chwarel neu safle tirlenwi Cemex. (Bae Colwyn, Wrecsam, Castell-nedd a Chaerdydd) http://digbig.com/4xngr

Cory Environmental - Wrecsam yn unig. http://digbig.com/4xncf

Cynllun Grantiau Bach WREN – Sefydlwyd y cynllun er mwyn helpu ymgeiswyr sy'n chwilio am arian ar gyfer prosiectau bach a all wneud gwahaniaeth gwirioneddol i gymuned leol. Mae grantiau sy'n werth rhwng £2,000 a £15,000 ar gael ar gyfer: Parciau Cyhoeddus / Parciau Gwledig / Gwarchodfeydd Natur / Meysydd Pentrefi (a mwy…). Gweler http://digbig.com/4xbjd am fanylion a http://digbig.com/4xbje ar gyfer yr ardaloedd perthnasol – mewn gwirionedd, Pontardawe, Abergele, Rhuthun a'r Waun.

Prif gynllun grantiau WREN – rhwng £2,000 a £50,000 http://digbig.com/4xsps
Cronfa Gweithredu Bioamrywiaeth WREN – Mae'r gronfa'n darparu rhwng £75,000 a £250,000 i brosiectau nad ydynt yn para am fwy na 5 mlynedd. Rhaid i'r prosiectau fod wedi'u lleoli mewn safle(oedd) sydd wedi'u dynodi'n glir o fewn 10 milltir o unrhyw safle tirlenwi trwyddedig yn yr ardaloedd a ganlyn: Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Gaerfyrddin, Sir y Fflint, Wrecsam, Ynys Môn. http://digbig.com/4xspr Y dyddiad cau ar gyfer y flwyddyn gyntaf oedd 30 Ionawr 2009, ond mae'n brosiect parhaus.

Grantscape – Creu, diogelu, gwella bioamrywiaeth, £150,000 i £300,000 http://digbig.com/4ypyf

Veolia - £25,000 i £40,000. Gweler http://digbig.com/4xxdn

SITA o fewn 10 milltir o safle tirlenwi Withyhedge yn Sir Benfro http://digbig.com/4yhgc

Gweithredwyr safleoedd tirlenwi eraill: Gweler http://digbig.com/4wtkh am wybodaeth am weithredwyr yn eich ardal chi.

ENTRUST – Cynllun Grantiau Bach ar gyfer Cyrff Amgylcheddol
Mae ENTRUST wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer Cyrff Amgylcheddol achrededig sy'n dymuno cymryd rhan yn y cynllun. Mae'r cynllun yn cael ei dreialu gyda chyrff amgylcheddol ar hyn o bryd ac mae'n berthnasol i Amcan D yn unig. Bydd y broses yn cael ei hadolygu yn gynnar yn 2010/2011.

Gwefan: http://digbig.com/5bahtf

Dewch i Gerdded Cymru ■ CG ■ MA

Menter newydd ar gyfer Cymru gyfan wedi'i datblygu mewn partneriaeth â Chyngor Chwaraeon Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yw 'Dewch i Gerdded Cymru'. Ei thasg yw cynyddu nifer y bobl sy'n cerdded yn rheolaidd. Mae 'Dewch i Gerdded Cymru'n' darparu grantiau i sefydliadau a grwpiau ledled Cymru. Mae'r rhaglen yn ceisio edrych ar ffyrdd arloesol o hybu cerdded er mwyn gwella iechyd a lles. Mae grantiau ar gael ar dair lefel (yn amrywio o £1,000 i £15,000) ac fe'u dyfernir ar sail maint a chynnwys y prosiect. Am fwy o wybodaeth ewch i: http://digbig.com/5bareh

Yr Undeb Ewropeaidd - LIFE+ ■ CG ■ CW

LIFE yw offeryn ariannol yr Undeb Ewropeaidd er mwyn cefnogi prosiectau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a gwarchod natur ledled yr Undeb Ewropeaidd. Gall fod yn berthnasol i rai gwledydd eraill hefyd, e.e. gwledydd sydd wedi gwneud cais i ymuno â'r Undeb, gwledydd sydd ar fin ymuno â'r Undeb a gwledydd cyfagos. Er 1992, mae LIFE wedi cydariannu tua 3,104 o brosiectau, gan gyfrannu tua €2.2 biliwn er mwyn diogelu'r amgylchedd. Cyhoeddwyd trydydd cais LIFE+ am gynigion ar 15 Mai 2009, ac mae hyd at €250 miliwn ar gael i gydariannu prosiectau dan dri phennawd: natur a bioamrywiaeth; yr amgylchedd,

polisi a llywodraethu; a gwybodaeth a chyfathrebu. **Mae'r rownd hon wedi cau erbyn hyn.** Am ragor o newyddion a manylion am y rhaglen ewch i: http://digbig.com/4yxsy

Rhaglen Adeiladau Carbon Isel - Rhan 2 ■ AE
Cynllun gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yw'r Rhaglen Adeiladau Carbon Isel - Rhan 2E (LCBP2E) ac mae'n cynnig grantiau ar gyfer gosodiadau microgynhyrchu i gyrff sector cyhoeddus a sefydliadau elusennol. Darllenwch Amodau'r Cynllun er mwyn gweld a ydych yn gymwys. Mae grantiau ar gael ar gyfer gosodiadau sy'n cynhyrchu hyd at 50kW o drydan a 300kW o wres. Gall sefydliadau cymwys ymgeisio am 50% o gostau prosiectau gosod technolegau microgynhyrchu. Gall sefydliadau ymgeisio am hyd at £200,000 o grant ar gyfer pob safle. Gall safle gynnwys mwy nag un adeilad ac ystyrir mwy nag un cais gan un sefydliad ar gyfer gwahanol safleoedd. http://digbig.com/5bahsw

Sblash – Cronfa Her Gweithgareddau Hamdden Dŵr Cymru ■ AE
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnig grantiau hyd at 100% i brosiectau (bach a mawr) sy'n helpu pobl i fwynhau dyfroedd Cymru. Y grant lleiaf = £5,000. Bydd y pwyslais ar gefnogi gwaith cyfalaf newydd a gwaith arall sy'n gwella cyfleusterau ar lan afonydd, arwyddion, parcio oddi ar y ffordd, ac yn y blaen. Gall hyn hefyd gynnwys cyfleusterau a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion pobl anabl. Dylai pob prosiect helpu i hyrwyddo cynaliadwyedd a mynediad cyfrifol. http://digbig.com/4ydqp

Cyngor Chwaraeon Cymru: Trothwy'r Awyr Agored ■ CG ■ MA
Mae rhaglen 'Trothwy'r Awyr Agored' Cyngor Chwaraeon Cymru'n ceisio darparu cyngor a chymorth ariannol er mwyn gwella mynediad at ystod eang o weithgareddau awyr agored. Mae'r rhaglen yn hyblyg a gall ariannu costau amrywiol gwahanol fathau o weithgareddau awyr agored, yn ogystal â chynnig arweiniad a chefnogaeth. Ceir rhagor o wybodaeth yn: http://digbig.com/4xngs. Gellir gweld astudiaethau achos yn ymdrin â phrosiectau cyfredol yn: http://digbig.com/4xngt

Cronfa Datblygu Cynaliadwy ■ AE ■ DC
Gweinyddir y Gronfa Datblygu Cynaliadwy gan y Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (gweler isod). Mae'n cefnogi ystod eang o brosiectau sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy ac yn ceisio annog cymunedau i ddarganfod ffyrdd mwy cynaliadwy o fyw.

Cronfa Datblygu Cynaliadwy	http://digbig.com/4xngw
Bannau Brycheiniog	http://digbig.com/4xngx
Sir Benfro	http://digbig.com/4xngy
Eryri	http://digbig.com/4xnha

Mae cynllun tebyg ar gael hefyd ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol yng Nghymru a Lloegr. Mae hyd at £100,000 ar gael ar gyfer prosiectau amgylcheddol, arloesol a chynaliadwy, sy'n cynnwys cymunedau lleol. Am ragor o fanylion dilynwch y dolenni cyswllt priodol isod:

Môn	http://digbig.com/4wtba
Llŷn	http://digbig.com/4wtbb
Gŵyr	http://digbig.com/4wtbc (yr AHNE gyntaf!)
Dyffryn Gwy	http://digbig.com/4wyjc
Bryniau Clwyd	http://digbig.com/4wtbd

Newydd!

Rhaglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm WCVA
Nod y rhaglen yw: Creu effaith gadarnhaol mewn cymunedau lleol. Cynnig cyfleoedd gwirfoddoli heriol a diddorol i bob person ifanc. Galluogi pobl ifanc i ddysgu sgiliau newydd, cynyddu eu

gwybodaeth, a datblygu'n bersonol. Sicrhau bod mwy o gydnabyddiaeth i bobl ifanc sy'n gwirfoddoli yn y gymuned. Gosod y safon ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli yng Nghymru. Annog pobl ifanc i deimlo mai eu rhaglen hwy ydyw. Am fwy o wybodaeth ewch i: http://digbig.com/5barec

Cynllun Grant Cefnogi Ailgylchu WRAP Cymru ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig ■ AE

Mae WRAP (Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau) yn gweithio gydag awdurdodau lleol, busnesau a chartrefi er mwyn atal gwastraff, cynyddu ailgylchu a datblygu marchnadoedd ar gyfer cynnyrch cynaliadwy a chynnyrch wedi'u hailgylchu. Nod rhaglenni WRAP yng Nghymru yw cynyddu ailgylchu a sicrhau bod mwy o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu'n cael eu defnyddio ym maes gweithgynhyrchu ac adeiladu. Mae'r Cynllun Grant Cefnogi Ailgylchu ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig yng Nghymru'n fenter newydd. Ei nod yw sicrhau cynnydd sylweddol mewn cyfraddau ailgylchu yng Nghymru drwy ddarparu cymorth ariannol i sefydliadau sy'n gallu cynnig gwasanaethau ailgylchu arbenigol i Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghymru. Gellir defnyddio'r grantiau ar gyfer hyd at 30% o wariant cyfalaf prosiect (a'r costau hyrwyddo cychwynnol), ac mae hyd at £50,000 ar gael. Am fwy o wybodaeth ewch i: http://digbig.com/5bardw

Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid (YESS) ■ CG

Bwriad y Cynllun hwn yw cynnig cymorth i helpu i ymsefydlu ffermwyr ifanc (dan 40 oed) sy'n meddu ar sgiliau a chymwyseddau digonol ac sy'n ymsefydlu fel pennaeth daliad am y tro cyntaf. Bydd y pecyn cymorth yn cynnwys y cyfan neu rai o'r canlynol:

- taliad grant untro ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw yr aiff y newydd-ddyfodiad ifanc iddynt wrth ymsefydlu fel pennaeth daliad am y tro cyntaf;
- mynediad at wasanaeth Swyddog Galluogi dynodedig ar gyfer newydd-ddyfodiaid ifanc, a fydd yn rhoi cyngor ar hyfforddiant, trosglwyddo gwybodaeth a chyfleoedd cyd-fentro ac yn paru newydd-ddyfodiaid ifanc â ffermwyr sefydlog priodol sy'n dymuno ymchwilio i batrymau gweithio gwahanol e.e. ffermio cyfran, mentrau ar y cyd, ac yn y blaen; a
- mynediad at wasanaethau mentora wedi'u hariannu a ddarperir gan ffermwyr sefydlog. http://digbig.com/5bafdg

Cyllid y Loteri

Os hoffech gael cyngor cyffredinol am gyllid y loteri ewch i: http://digbig.com/4xnhh

Y Gronfa Loteri Fawr

Arian i Bawb ■ MA ■ AE

Ei nod yw cynyddu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o dreftadaeth ac annog cymunedau lleol i gymryd rhan mewn gweithgareddau treftadaeth drwy gynnig grantiau sy'n werth rhwng £500 a £5,000. Gellir cael mwy o wybodaeth ac astudiaethau achos i'w llwytho i lawr yn: http://digbig.com/4xnhp

Y Gronfa Pobl a Lleoedd ■ AE

Mae tri phrif ganlyniad i raglenni'r gronfa Pobl a Lleoedd: (1) cymunedau wedi'u hadfywio; (2) gwell cysylltiadau cymunedol; (3) gwell amgylchedd, gwasanaethau cymunedol ac adeiladau lleol. Awgrymir bod y trydydd canlyniad yn cael ei sicrhau drwy brosiectau sydd (ymhlith pethau eraill) yn creu lleoedd ar gyfer bywyd gwyllt a phobl, a/neu'n darparu cyfleoedd i unigolion ddeall, cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol. Mae grantiau sy'n werth rhwng £5,001 a £250,000 ar gael ar gyfer prosiectau sy'n sicrhau un o'r canlyniadau uchod.

http://digbig.com/4xnhj Dolen gyswllt i astudiaethau achos → http://digbig.com/4xyqt

Cronfa Dreftadaeth y Loteri ■ CG ■ AE ■ TDd
Eich Treftadaeth – yn darparu grantiau sy'n werth rhwng £3,000 a £50,000 i gefnogi prosiectau sy'n ymwneud â threftadaeth leol, ranbarthol neu genedlaethol y Deyrnas Unedig. Croesewir ceisiadau gan brosiectau sy'n helpu pobl i ddysgu am dreftadaeth, i ofalu amdani ac i'w dathlu mewn ffordd hwyliog sy'n cynnig mwynhad. http://digbig.com/4xnhm Dolen gyswllt i astudiaethau achos: http://digbig.com/4xnhn

Grantiau Treftadaeth ■ AE
Mae grantiau sy'n werth £50,000 neu fwy ar gael i brosiectau sy'n ceisio diogelu a gwella'r dreftadaeth leol. Gellir cael mwy o wybodaeth ac astudiaethau achos i'w llwytho i lawr yn: http://digbig.com/4xnhq

Gwreiddiau Ifanc ■ CG ■ MA ■ CW ■ AE
Mae'r Rhaglen Gwreiddiau Ifanc, sy'n darparu grantiau yn amrywio o £3,000 i £25,000, yn ceisio cael pobl ifanc 13-25 oed i fynd ati i ddarganfod eu treftadaeth, datblygu sgiliau, meithrin hyder a hyrwyddo'u cysylltiadau gyda'r gymuned. "Mae treftadaeth yn cynnwys … bywyd gwyllt, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau arbennig …" http://digbig.com/4ykmf

Diweddarwyd!

Partneriaethau Tirwedd
Un o raglenni Cronfa Dreftadaeth y Loteri yw Partneriaethau Tirwedd. Mae'n cefnogi cynlluniau sy'n werth rhwng £250,000 a £2 miliwn, sy'n cael eu harwain gan bartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac sy'n ceisio gwarchod cymeriad nodedig y dirwedd mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig. Mae pob cynllun yn seiliedig ar bortffolio o brosiectau llai, sydd gyda'i gilydd yn darparu pecyn amrywiol o fanteision i ardal, ei chymunedau a'i hymwelwyr. Sylwer: Dylai ceisiadau rownd gyntaf gyrraedd eich swyddfa ranbarthol neu genedlaethol cyn 30 Tachwedd fan bellaf bob blwyddyn. http://digbig.com/5banay

***Changing Spaces: Local Food* – Rhaglen y Gronfa Loteri Fawr / RSWT** ■ AE
Mae rhaglen *Changing Spaces* y Gronfa Loteri Fawr yn ymwneud â bwyd lleol. Lansiwyd y rhaglen yn Nhachwedd 2005 er mwyn helpu cymunedau i fwynhau a gwella'u hamgylchedd lleol. Mae'n ariannu nifer o wahanol weithgareddau, yn amrywio o gynlluniau bwyd lleol a marchnadoedd ffermwyr, i brosiectau addysgol sy'n addysgu pobl ynglŷn â'r amgylchedd. Mae'r grantiau sydd ar gael yn amrywio o £2,000 i £500,000 ac maent ar gyfer grwpiau a sefydliadau dielw yn Lloegr sy'n ymwneud â phrosiectau fel tyfu, prosesu, marchnata a dosbarthu bwyd lleol; compostio a chynyddu ymwybyddiaeth o fanteision gweithgareddau o'r fath. Ffynhonnell: Cylchlythyr *Fit4Funding*
Gwefan: http://digbig.com/5bacgh

Y Gronfa Loteri Fawr – Trosglwyddo Asedau Cymunedol – Cymru ■ AE
Yn ôl y wefan, 'Rydym am alluogi cymunedau i gael mwy o reolaeth a dylanwad dros eu datblygiad yn y dyfodol. Trwy drosglwyddo asedau o sefydliadau cyhoeddus, byddwn yn galluogi cymunedau i wella eu bywoliaeth a'u cymdogaethau'.

'Dyma'r cyfle mawr cyntaf i'r Gronfa Loteri Fawr gyflwyno rhaglen grantiau partneriaeth sy'n cyfuno arian y loteri ac arian nad yw'n dod o'r loteri. Mae'r cyfle i gyflwyno cronfa bartneriaeth lle mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr yn darparu arian

cyfatebol ac yn ei ddosbarthu drwy un broses ymgeisio'n dangos ymagwedd ddeallus a chydlynol, gan sicrhau ymagwedd strategol at ddefnyddio dwy ffynhonnell arian gyfyngedig'.

Mae'r gyllideb gyfan ar gyfer y rhaglen yn £13 miliwn, sef arian cyfalaf gan Lywodraeth y Cynulliad ac arian refeniw gan y Gronfa Loteri Fawr. Cyflwynir y rhaglen dros dair rownd. **Agorodd y rownd gyntaf yng nghanol mis Hydref 2009**.
Gwefan: http://digbig.com/5bafdm

Dolenni cyswllt defnyddiol a dogfennau i'w llwytho i lawr

Canllaw i Gyllid Ewropeaidd 2007-13
Anelwyd y canllaw hwn at ddarllenwyr sydd â nemor ddim gwybodaeth am gyllid Ewropeaidd ac mae'n ceisio rhoi gwybodaeth glir am wahanol ddulliau a rhaglenni ariannu. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am reolau a rheoliadau ariannol newydd yr Undeb Ewropeaidd. Er mwyn llwytho copi o'r adroddiad i lawr, ewch i:
http://digbig.com/4xjpp (fersiwn PDF)

Cyllid Ewropeaidd
Mae gwefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cael ei diweddaru i gynnwys adran am *ymgeisio am gyllid Ewropeaidd* (http://digbig.com/4xcac), a fydd yn arwain darpar noddwyr prosiectau gam wrth gam drwy'r broses o ymgeisio am gyllid dan raglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd Rhanbarthol 2007-2013. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ymgeisio am gyllid Ewropeaidd, cysylltwch â Llinell Gymorth WEFO ar 0845 010 3355 neu anfonwch e-bost i enquiries-wefo@wales.gsi.gov.uk. Mae canllaw defnyddiol iawn i gyllid Ewropeaidd ar gael yn http://digbig.com/4ydqq
(Ffynhonnell: WCVA 24/6/08)

Canllaw ar fenthyciadau i fentrau cymdeithasol ■ AE
Mae *Social Economy Bristol Development Project* (SEBDP) a *Bristol Area Community Enterprise Network* (BACEN) wedi cynhyrchu canllaw sy'n darparu gwybodaeth am fenthyciadau a mathau eraill o gyllid sy'n addas iawn ar gyfer busnesau cymunedol a mentrau cymdeithasol. Gellir llwytho'r canllaw i lawr yn rhad ac am ddim o http://digbig.com/4xfrh (fersiwn PDF)

Cymorth am ddim i sefydliadau gwledig
Mae Fforwm Gwledig Cymru wedi cynhyrchu taflen sy'n amlinellu'r cymorth sydd ar gael am ddim i grwpiau cymunedol mewn ardaloedd Amcan 1. Gall yr Adnodd Gwledig gynnig cymorth TG, cymorth gyda digwyddiadau a chefnogaeth gyffredinol. Am fwy o wybodaeth ewch i http://digbig.com/4xnht

Prosiect Cyllid Cynaliadwy
Mae'r Prosiect Cyllid Cynaliadwy wedi cyhoeddi chwe chanllaw ariannu wedi'u hanelu at fudiadau cymunedol neu wirfoddol bach a chanolig eu maint a'r bobl sy'n gweithio gyda hwy er mwyn codi arian. Mae'r canllawiau'n ymwneud â'r pynciau canlynol: cyllid cynaliadwy; rheolaeth ariannol; masnachu a chodi arian; caffael a chontractio; a chyllid benthyciadau. Gellir eu llwytho i lawr am ddim fel ffeiliau PDF o http://digbig.com/4next

Coetiroedd ac Iechyd a Lles
Mae Partneriaeth Coed Lleol wedi llunio canllaw sy'n nodi sut y gellir defnyddio coetiroedd i ddibenion iechyd a lles. Mae'r canllaw hefyd yn egluro sut y gallwch ddatblygu rhaglen

iechyd a lles sydd wedi'i lleoli mewn coetir. Er mwyn cael mwy o wybodaeth a llwytho'r canllaw i lawr ewch i http://digbig.com/4xnhs

Mapiau meddwl ar-lein o'r ffynonellau cyllid sydd ar gael
Ffynonellau cyllid yr Undeb Ewropeaidd, ffynonellau statudol, cyllid y loteri ac ymddiriedolaethau/sefydliadau www.gka.org.uk/ccw
Map meddwl yn rhoi trosolwg o flaenoriaethau a themâu ERDF, gyda dolenni cyswllt i hysbysfyrddau syniadau prosiect WEFO: www.gka.org.uk/erdf
Map meddwl yn rhoi trosolwg o flaenoriaethau a themâu Cronfa Gymdeithasol Ewrop, gyda dolenni cyswllt i hysbysfyrddau syniadau prosiect WEFO: www.gka.org.uk/esf

Digbig?
Pam y mae cynifer o ddolenni cyswllt "digbig.com" yma? Mae'n syml! Ffordd yw Digbig o dalfyrru cyfeiriadau gwe hir, er enghraifft, yn lle teipio http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=5030&doc=17682&Language=2, gallwch deipio http://digbig.com/4wtbb neu hyd yn oed digbig.com/4wtbb. Rhowch gynnig arni drwy glicio ar www.digbig.com (mae gwasanaethau talfyrru eraill ar gael, er enghraifft bit.ly a tinyurl.com)

Cysylltu â ni?
Rydym bob amser yn awyddus i glywed gan bobl sy'n defnyddio'r cylchlythyr hwn – llenwch ein harolwg ar-lein a gadewch inni wybod sut mae'n diwallu eich anghenion.
http://digbig.com/4ytrf

Byddem yn falch o gael adborth ac awgrymiadau ar gyfer rhifynnau nesaf y cylchlythyr hwn:
ccw@gka.org.uk

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government